



# BAGLORIAETH CYMRU TYSTYSGRIF HER SGILIAU Cenedlaethol/Sylfaen

## Her Dinasyddiaeth Fyd-eang Ynni Morol Cymru



**Ar gael i'w asesu o fis Medi 2020**

# Ynni Morol

## DIBEN

Diben yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang yw datblygu sgiliau dysgwyr, wrth ddarparu cyfleoedd i ddeall ac ymateb yn briodol i faterion byd-eang. Yn ystod yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang, bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau **Meddwl Beirniadol a Datrys Problemau a Chreadigrwydd ac Arloesi** yn benodol ac yn eu defnyddio mewn modd priodol.

## BRIFF

Mae yna lawer o broblemau yn y byd y dylem oll helpu i'w datrys hyd yn oed os yw'n digwydd cannoedd neu filoedd o filltiroedd i ffwrdd, neu lle rydych chi'n byw yng Nghymru. Sut ydych chi'n dod yn ddinesydd byd-eang? Mae angen i chi wneud penderfyniadau am y materion sy'n bwysig a'r math o fyd rydych chi am fyw ynddo. Mae bod yn ddinesydd byd-eang yn rhoi'r pŵer i chi sicrhau newid cadarnhaol i wneud y byd hwn yn lle gwell. Mae lleihau ein dibyniaeth ar nwy tanwydd ffosil a chronfeydd olew yn nod byd-eang yr 21ain ganrif.

Mae datblygwyr ynni morol yng Nghymru yn ymdrechu i newid cymysgedd ynni'r DU trwy ddatblygu seilwaith i harneisio pŵer naturiol o'r môr. Gall gwahanol ddyluniadau wneud defnydd o donnau, ceryntau llanw, neu o'r amrediad llanw o amgylch arfordir Cymru.



Mae Marine Power Systems o Gymru a Bombora Wave Power Ltd wedi dyfeisio peiriannau gwahanol iawn sy'n trosi symudiad y **tonnau** yn drydan.

Mae Minesto wedi adeiladu a dangos barcud tanddwr, sy'n defnyddio ynni **ffrwd lanw** i wneud trydan.

Adeiladwyd yr holl ddyfeisiau ynni adnewyddadwy hyn yng Nghymru, gan gyfrannu at ein heconomi.

Bydd yr Her yn golygu eich bod chi'n gallu hysbysu ac addysgu pobl am bwysigrwydd **ynni morol**.

- Bydd angen i chi ymchwilio i effeithiau lleol a byd-eang **ynni morol**.
- Defnyddiwch yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu i ysgrifennu safbwynt personol.
- Yna mae'n rhaid i chi greu darn o waith i ennyn diddordeb cynulleidfa o'ch dewis gyda photensial ynni morol i gyfrannu at **Nodau Llesiant Cymru**.

Trwy gwblhau'r Her hon byddwch yn dangos y gallwch resymu, llunio barn, a gwneud penderfyniadau i greu safbwynt personol gwybodus ar ynni morol. Dangoswch pa mor greadigol ac arloesol y gallwch chi fod wrth gyfleu'ch syniadau a chyflwyno'ch neges i bobl eraill.

## ADNODDAU

### Ynni Morol Cymru

<https://www.marineenergywales.co.uk/about/education/education@marineenergywales.co.uk>